**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Mawrth 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth ynglŷn ag Adroddiad Perfformiad Corfforaethol diweddaraf y Comisiwn ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2014. Fe wnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth am arolwg staff Comisiwn y Cynulliad a nifer yr ysgolion sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad am y tro cyntaf.

Cynhaliwyd yr arolwg staff diwethaf ym mis Gorffennaf 2013 a chyhoeddwyd y canlyniadau a'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ym mis Hydref 2013. Roedd y themâu allweddol a oedd yn deillio o'r arolwg yn canolbwyntio ar recriwtio, rheoli perfformiad, adeiladau a datblygiad gyrfa. Gan fod y themâu yn debyg i'r rhai yn arolwg y flwyddyn flaenorol, penderfynwyd cymryd amser i ymchwilio i'r materion a mynd i'r afael â hwy. Felly, penderfynwyd peidio â chwblhau arolwg yn 2014 ac rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer yr arolwg nesaf ym mis Mai 2015. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, bydd yr arolwg yn cael ei gysylltu â chyfres ehangach o weithgareddau ymgysylltu â staff, fel sesiynau trafod gyda mi.

O ran y nifer is o ysgolion newydd, rydych yn iawn i dynnu sylw at yr her y mae'r targed hwn yn ei gyflwyno i ni. Rydym yn ceisio symud o wasanaeth adweithiol i un rhagweithiol, gyda'r nod penodol o ymgysylltu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd, nid dim ond yr ysgolion hynny sydd eisoes yn yr arfer o ymgysylltu â ni. Cafwyd penllanw o ran gweithgarwch ymgysylltu yn gysylltiedig â cham cychwynnol y Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc (rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2013), wrth inni ddefnyddio adnoddau'r fenter hon i estyn allan at ragor o ysgolion uwchradd; dychwelodd y cynllun ymgysylltu i lefelau mwy normal y flwyddyn ganlynol.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Claire.Clancy@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Claire.Clancy@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230

Er bod y ffigurau Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, ein blaenoriaeth o dan y Strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc yw canolbwyntio mwy o'n gwaith ar ysgolion uwchradd. Efallai y bydd gennych ddiddordeb nodi, o'r 208 o ysgolion uwchradd yng Nghymru, 48 sydd heb ymgysylltu â ni hyd yn hyn yn ystod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol y byddwn wedi ymgysylltu â 100% o ysgolion uwchradd erbyn diwedd y Cynulliad hwn.

Ym mis Hydref, ymunodd gweithiwr ieuenctid cymwysedig â'r tîm i ddatblygu ein gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd y tu hwnt i'n gwaith gydag ysgolion. Mae nifer o gyfarfodydd gyda sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc y tu allan i'r 'profiad ystafell ddosbarth' wedi cael eu cynnal. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr cynhaliwyd dau weithdy gyda myfyrwyr BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Claire.

**Claire Clancy**
**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**